

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 23 Mai 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnwys

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Amcanion Trawsbynciol y Cynulliad

C11 Glyn Davies: Pryd wnaeth y Gweinidog drafod amcanion trawsbynciol y Cynulliad â chadeirydd Cyngor Sir Powys ddiwethaf? (OAQ17857)

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Trafodaf faterion o'r fath yn aml ag aelodau o'r awdurdodau lleol.

Rheolaeth dros Gyfraddau Busnes (Awdurdodau Lleol)

C12 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyflwyniadau y mae wedi'u derbyn gan y gymuned fusnes yn ymwneud â chynlluniau'r Cynulliad i drosglwyddo rheolaeth dros gyfraddau busnes i awdurdodau lleol? (OAQ17769)

Edwina Hart: Gwnaethom ymgynghori ar ystod o opsiynau ar gyfer rhyw fath o gyfradd leol. Daeth yr cyfnod ymgynghori i ben ar 17 Mai ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

Model Tai Cymunedol Cydfuddiannol

C13 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y model tai cymunedol cydfuddiannol? (OAQ17804)

Edwina Hart: Yr oeddwn yn falch o lansio y model tai cymunedol cydfuddiannol ar 8 Mai. Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a gymeradwyodd fodel y rheol a sefydlwyd ac mae ar gael i'r awdurdodau lleol hynny sy'n dymuno ei ystyried fel opsiwn i drosglwyddo stoc.

Sefydlu Cynghorau Tref a Chymuned Newydd

C14 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefydlu cynghorau tref a chymuned newydd yng Nghymru? (OAQ17829)

Edwina Hart: Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylai cymunedau nad oes ganddynt gynghorau cymuned a thref ar hyn o bryd eu dilyn os am sefydlu cyrff o'r fath.

Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ17797) yn ôl.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

Gwerth Treftadaeth Cymru

C2 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod ein treftadaeth yng Nghymru yn cael ei gwerthfawrogi? (OAQ17810) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Mae treftadaeth Cymru'n bwysig dros ben i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyhoeddais 'Polisi Cynllunio Cymru' yn ddiweddar, sy'n amlinellu'r amcan i warchod a gwella yr amgylchedd hanesyddol, gan gydnabod ei gyfraniad i fywiogrwydd economaidd a diwylliant, balchder dinesig ac ansawdd bywyd, a'i bwysigrwydd fel adnodd ar gyfer y cenedlaethau a ddaw. Yr wyf hefyd yn cychwyn astudiaeth ar ddatblygu polisi treftadaeth strategol, ac yr wyf yn cynnal cynhadledd yng Ngorffennaf 'Gwerthfawrogi ein Treftadaeth' i godi ymwybyddiaeth ac ystyried y cysylltiadau rhwng treftadaeth a meysydd blaenoriaeth eraill y Cynulliad.

Mae strategaeth diwylliant Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Creative Future: Cymru Greadigol' yn rhoi cyfeiriad strategol cyffredinol i raglenni a gweithgareddau cyrff, gan gynnwys Cadw. Dros y pum blwyddyn ariannol ddiwethaf, mae Cadw wedi cynnig dros £11 miliwn o gymorth grant i adeiladau eithriadol yng Nghymru. Bu grantiau ar gael hefyd ar gyfer adnewyddu adeiladau sy'n gwella golwg ardaloedd cadwraeth hanesyddol, ac fe gefnogwyd tua 30 o gynlluniau partneriaethau tref awdurdodau lleol.

Atebwyd cwestiynau 3-5 yn y Cyfarfod Llawn. Tynnwyd Cwestiwn 6 yn ôl.

Consortia Trafnidiaeth Cymru

C7 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt ei chyfarfodydd gyda chonsortia trafniadaeth Cymru? (OAQ17859) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

Sue Essex: Yr wyf yn hapus â'r ymrwymiad a ddangosodd y consortia awdurdodau lleol i geisio gwella trafniadaeth gyhoeddus. Bydd angen atebion gwahanol ar draws Cymru ond bydd pob consortiwm yn cydnabod y potensial o ddatblygu eu rôl a byddaf yn ystyried sut y gallwn helpu i ddatblygu'r trefniadau partneriaeth hyn dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (Polisi Cynllunio)

C9 Glyn Davies: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ynghylch polisi cynllunio? (OAQ17839)

Sue Essex: Ni chefais drafodaethau â Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ynghylch polisi cynllunio yn ystod y 12 mis diwethaf. Yr wyf wedi cwrdd â swyddogion y parc yn ystod y cyfnod hwn, ond ni thrafodwyd polisi cynllunio. Bu fy swyddogion mewn cysylltiad â'r parc cenedlaethol ynghylch nifer o faterion cynllunio.

Atebwyd cwestiwn 8 yn y Cyfarfod Llawn.

Gwelyau Cocos (Moryd y Burry)

C10 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y problemau sy'n effeithio ar welyau cocos ar hyd moryd y Burry? (OAQ17794) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog ar gyfer Materion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad.*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad (Carwyn Jones): Ailagorwyd gwelyau cocos moryd y Burry ar gyfer casglu ar ddydd Llun 20 Mai. Bydd cynghorau sir Abertawe a sir Gaerfyrddin, ynghyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn parhau i fonitro am bresenoldeb gwenwyno diarëig o bysgod cregyn.

Targedau Ailgylchu yng Nghymru

C11 Christine Chapman: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed o safbwynt targedau ailgylchu yng Nghymru? (OAQ17840)

Sue Essex: Byddaf yn cyhoeddi strategaeth gwastraff newydd i Gymru ar 14 Mehefin. Bydd y strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd ailgylchu fel cyfraniad tuag at reoli gwastraff cynaliadwy yng Nghymru a bydd yn cadarnhau'r gyfres gyntaf o dargedau o dan gytundebau polisi rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cydsynio â'r targedau hyn, sy'n gosod nod o 15 y cant o ailgylchu a chompostio wedi eu cyfuno erbyn 2003-2004.

Problem Llifogydd ym Mynwy

C12 David Davies: Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r astudiaeth a wnaed cyn yr astudiaeth dichonoldeb a gynhaliwyd i broblem llifogydd ym Mynwy? (OAQ17816)

Sue Essex: Cyngor Sir Fynwy sy'n gyfrifol am yr astudiaeth hon ac unrhyw weithredu sy'n deillio ohoni. Rhaid anfon astudiaethau wedi eu cwblhau i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddiwedd y mis hwn.

Cael Mwy o Adar i Nythu ym Mae Caerdydd

C13 Alison Halford: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y camau a wnaed i gael mwy o adar i nythu ym mae Caerdydd er mwyn mynd i'r afael â'r nifer cynyddol o bryfed cironomid o amgylch y bae? (OAQ17791)

Sue Essex: Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi fy hysbysu bod Awdurdod Harbwr Caerdydd yn ceisio cyflymu'r broses o sicrhau ecoleg gytbwys yn y bae ac o'i amgylch. Mae hefyd wedi darparu cyngor cyffredinol ar sut y gellid cyflawni hynny i'r awdurdod, gan gynnwys annog rhywogaethau sy'n bwyta pryfed sy'n hedfan. O ganlyniad, deallir bod awdurdod yr harbwr wedi cyflogi Prifysgol Caerdydd i dreialu effeithlonrwydd bocsys adar ac ystumod o gwmpas y bae.

Gwarchod yr Amgylchedd Adeiledig yng Nghaerdydd

C14 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar warchod yr amgylchedd adeiledig yng Nghaerdydd? (OAQ17831)

Sue Essex: Amcan Llywodraeth y Cynulliad, fel y'i hamlinellwyd yn 'Polisi Cynllunio Cymru' a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yw gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol drwy Gymru gyfan, gan gydnabod ei gyfraniad i fywiogrwydd economaidd a diwylliant, balchder dinesig ac ansawdd bywyd, a'i bwysigrwydd fel adnodd ar gyfer y cenedlaethau a ddaw. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwarchod adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig drwy eu cynnwys ar restrau statudol, ac mae'n darparu cyllid ar gyfer y rhai sydd fwyaf nodweddiadol yn hanesyddol neu o ran pensaernïaeth. Yng Nghaerdydd, cynigwyd grantiau ar gyfer adnewyddu hanesyddol o dros £200,000 yn 2001-02, gyda bron i £450,000 wedi ei gynnig ers 1999.

Cynlluniau Severn Trent Water ar gyfer Cronfa Ddŵr

C15 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Severn Trent Water ar gyfer cronfa ddŵr yng Nghymru? (OAQ17849)

Sue Essex: Yn sgîl y sïon a fu yn y cyfryngau yn ddiweddar, cysylltodd fy swyddogion â rheolwr gyfarwyddwr Severn Trent Water. Mae'n dymuno sicrhau'r Cynulliad Cenedlaethol nad yw ef na'i gwmmi nac Water UK yn datblygu unrhyw gynlluniau i ehangu cronfa ddŵr Craig Goch.